# Hannibal Lecter

## Red Dragon

Thomas Harries ysgrifennodd am Hannibal Lecter gyntaf yn ei nofel *Red Dragon*, sy'n dangos sut y cafodd ei ddal gan Will Graham, aelod o'r FBI. Defnyddia Lecter ei allu i helpu'r asiant a'i daliodd i ddal llofrudd arall o'r enw Francis Dolarhyde a deall sut mae ei feddwl yn gweithio. Cred Dolarhyde ei fod yn dduw ac nad oes yn rhaid iddo fyw yn ôl rheolau a deddfau dyn.

Yn y ffilm sy'n seiliedig ar y nofel chwaraeir rhan Dolarhyde gan Ralph Fiennes a rhan Hannibal Lecter gan Anthony Hopkins.

Yn y ffilm arall sy'n seiliedig ar y nofel 'Red Dragon' - *Manhunter* - Tom Noonan sy'n chwarae rhan Dolarhyde a Brian Cox ydy Hannibal Lecter.

## Silence of the Lambs

Mae'r nofel *Silence of the Lambs* am asiant FBI o'r enw Clarice Starling sydd, fel Will Graham yn *Red Dragon*, yn ceisio dal llofrudd sy'n galw ei hun yn 'Buffalo Bill' am ei fod yn blingo ei ddioddefwyr fel byffalo. Gwna Starling ddêl gyda Lecter. Mae hi am drefnu iddo gael ei symud i garchar arall (mae'n gas ganddo'r gell lle y mae'n garcharor ynddi) os ydy e'n ei helpu hi i dreiddio i feddwl Buffalo Bill. Dalia Starling Bill, ond mae Lecter yn dianc i'r Eidal.

Yn y nofel hon a'r ffilm sy'n seiliedig arni portreadir Hannibal fel dyn eithriadol o alluog sy'n gallu codi ofn ar bobl wrth iddo siarad â hwy. Ystyria ei hun yn ddyn diwylliedig ac mae'n aml yn lladd pobl sydd, yn ei farn ef, yn hurt. *Sociopath* heb ddim cydymdeimlad ag eraill ydyw a gall wneud beth bynnag sy'n ei blesio ef ei hun heb deimlo'n euog.

## Hannibal

Mae'r nofel nesaf, *Hannibal*, yn ddilyniant i *Silence of the Lambs*. Yn yr Eidal defnyddia Lecter enw a thrwydded yrru ffug. Goroesodd un o'i ddioddefwyr, Mason Verger, wedi i Lecter geisio bwyta ei wyneb. Ceisia Verger ddial trwy ymosod arno gyda moch gwyllt. Dihanga Lecter (a chwaraeir gan Hopkins yn y ffilm).

## Hannibal Rising

Y nofel olaf ydy *Hannibal Rising* sy'n dilyn Hannibal fel plentyn 8 oed ac yn ceisio egluro pam mae'n ganibal. Yn ôl y beirniaid dydy'r nofel na'r ffilm hon (2007) ddim cystal, yn bennaf am nad ydy'r cymeriadau yn realistig ac nad ydy eu personoliaethau yn unol â'r hyn a geir yn y nofelau eraill. Cyfaddefodd Thomas Harries mai'r unig reswm yr ysgrifennodd y nofel oedd rhag ofn i rywun arall ysgrifennu nofel am blentyndod Hannibal. Aaran Thomas sy'n portreadu Hannibal yn y ffilm.

**HANNIBAL LECTER ydy'r ail ddihiryn mwyaf mewn ffilm, yn ail i Bates.**

Pam mae mor uchel ar y rhestr?

Mae Thomas Harries wedi sicrhau nad ydych chi'n disgwyl cyfarfod â dyn twt a thaclus ar ben draw'r corridor tywyll, tamp yn y carchar! Yr hyn mae Hopkins yn ei ychwanegu ydy'r llonyddwch goruwchnaturiol, y teimlad iasol, oer. Mae hyn oherwydd bod ein barn amdano wedi cael ei lywio gan straeon sy'n codi gwallt ein pen. Yr unig beth sy'n rhaid i Lecter ei wneud ydy aros i ni wneud camgymeriad – ac mae ganddo lawer o amynedd. Mae mwy o waed anifail na gwaed dynol ynddo – nodwedd a amlygir fwyaf yn ei dueddiadau canibalyddol.